

Dr Ian Harris
Dirprwy Gadeirydd
Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru

7 Awst 2023

Annwyl Dr Harris

Ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Cyfiawnder data

Diolch am eich llythyr ynghylch ein hymchwiliad presennol. Cafodd ei drafod yn ein cyfarfod ar 15 Mai 2023.

Roeddem yn ddiolchgar am eich sylwadau ac yn nodi'n benodol rôl meddygon teulu fel rheolwyr data o dan reoliadau GDPR. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am y modd y mae meddygon teulu'n cyflawni'r cyfrifoldebau ychwanegol hyn, gan gynnwys yr hyfforddiant a'r cymorth sydd ar gael iddynt.

Nodwyd mai'r bwriad, fel rhan o ddogfennau contract meddygon teulu yn GIG Lloegr ar gyfer 2019-20, o 1 Tachwedd 2022 ymlaen, oedd y gallai pob claf dros 16 oed gael mynediad awtomatig at yr holl gofnodion meddygol a ddelir yn electronig mewn systemau meddygon teulu.

Yn ddiweddarach, adroddodd Cymdeithas Feddygol Prydain y gall practisau, pan fydd pryderon diogelu, atal cleifion rhag cael mynediad awtomatig at y cofnod llawn wrth ei droi ymlaen drwy ychwanegu cod SNOMED penodol at gofnod y claf cyn 1 Tachwedd 2022. Byddai'r ymrwymiad hwn gan Lywodraeth y DU i osod meddalwedd yn ei gwneud yn haws i feddygon teulu olygu materion sy'n ymwneud â'r trydydd partion yng nghofnodion cleifion cyn iddynt gael eu rhyddhau i'r claf.

Fodd bynnag, cytunwyd wedi hynny nad yw'r broses o droi ymlaen fynediad posibl at y cofnod meddygol o 30 Tachwedd 2022, yn dilyn trafodaethau helaeth â GIG Lloegr, yn cael ei chyflwyno'n genedlaethol mwyach i'r rhai sy'n dymuno gohirió'r broses. Mae'n ymddangos yn aneglur a lynwyd at y dyddiad cau ym mis Tachwedd 2022 ac a aeth nodiadau digidol cleifion GIG Lloegr yn fyw heb lynu at yr ymrwymiad pwysig hwn. Byddai'n ddefnyddiol gwybod a oes gennych unrhyw wybodaeth am y sefyllfa bresennol a sut y gallai hyn fod wedi effeithio ar fabwysiadu'r broses o ddigideiddio nodiadau cleifion GIG Lloegr.



Hoffai'r Pwyllgor glywed am unrhyw fodolau gwahanol a fyddai'n caniatáu i feddygon teulu yng Nghymru rannu neu ddirprwyo'r rôl GDPR hon yn fwy effeithiol ac a ellid ystyried y modelau hyn o fewn GIG Cymru.

Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Jenny Rathbone". The signature is written in a cursive style with a large initial 'J'.

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

